# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 22 Medi 2011** |
| Amser: | **09:30 – 12:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700001_22_09_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Jo Jerrome, Cymdeithas Ffibriliad Atrïol**<br>**Ana Palazon, Y Gymdeithas Strôc Cymru**<br>**Paul Underwood, Y Gymdeithas Strôc Cymru**<br>**Lowri Griffiths, Y Gymdeithas Strôc Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc – tystiolaeth gan y Gymdeithas Ffibriliad Atrïaidd (09.30 – 10.30)

2.1 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ar leihau'r risg o strôc.

## 3. Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc - tystiolaeth gan y Gymdeithas Strôc (10.30 - 11.30)

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ar leihau'r risg o strôc.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol am bapur ar roi'r Cynllun Gweithredu i Leihau'r Risg o Strôc ar waith.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor y dylai geisio gwybodaeth am gyfranogiad darparwyr gwasanaethau cymdeithasol i'r byrddau partneriaeth strôc.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Gynghorydd Fferyllol i roi gwybod iddo am yr ymchwiliad i leihau'r risg o strôc.

## 4. Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2012-13 - ystyried y dull gweithredu (11.30 - 11.40)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor y bydd yn cynnal trafodaeth preifat gyda rhanddeiliaid cyn ei sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13.

## 5. Ymchwiliad i ofal preswyl i oedolion - papur cwmpasu (11.40 - 11.50)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor y bydd yn cynnal ymchwiliad i ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn ac y bydd yn trafod y cylch gorchwyl draft yn ei gyfarfod 28 Medi.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon cylch gorchwyl draft yr ymchwiliad at randdeiliaid ac y dylid caniatáu cyfnod o bythefnos er mwyn iddynt gyflwyno'u sylwadau.

## 6. Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru - llythyr gan y Cadeirydd (11.50 - 11.55)

6.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ei ymchwiliad i iechyd y geg mewn plant.

## 7. Papur i'w nodi: Blaenraglen waith y Pwyllgor - Hydref 2011 (11.50 - 12.00)

7.1 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd y dylid cyhoeddi'r blaenraglen waith yn rheolaidd.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.